**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales

11 Rhagfyr 2025

Annwyl Mike,

**Cydsynio i wneud Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 4) 2025**

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio i wneud Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Diwygio Rhif 4) 2025 ("y Rheoliadau") i Gymru.

Cefais lythyr gan Chris Ward AS yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau ar 20 Tachwedd 2025. Mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig Cymru, mae'r Rheoliadau yn berthnasol i adrannau 69 (Hysbysiadau cydymffurfio â thaliadau) a 71 (Asesu perfformiad contract) o Ddeddf Caffael 2023 ("y Ddeddf").

Mae adran 69 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gyhoeddi hysbysiad cydymffurfio â thaliadau, sydd yn y bôn yn nodi pa mor gyflym y mae awdurdodau contractio yn talu eu hanfonebau (ac a ydynt yn cydymffurfio â'r telerau talu ymhlyg a nodir yn adran 68 o'r Ddeddf).

Mae adran 71 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gyhoeddi hysbysiad perfformiad contract sy'n nodi sut mae cyflenwr wedi perfformio yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol y contract, yn ogystal ag unrhyw achos o dorri neu fethu a chyflawni'r contract ar ran y cyflenwr.

Bydd y Rheoliadau yn dod â'r adrannau hyn o'r Ddeddf i rym, gan roi'r rhwymedigaeth i gyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio â thaliadau a hysbysiadau perfformiad contract ar awdurdodau contractio.

Er mwyn cychwyn yr adrannau hyn, mae angen gwneud y Rheoliadau o dan adran 127 (Cychwyn). Bydd Llywodraeth y DU yn gwneud y Rheoliadau Cychwyn hyn yn unol ag adran 127(3) o'r Ddeddf ac felly mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei deddfu gan Weinidogion Cymru pan fo cymhwysedd gweithredol, yn yr achos hwn ystyrir ei bod yn briodol i Weinidog y Goron ddeddfu gan nad oes gan Weinidogion Cymru y pwerau. Felly, mae cydsynio yn gyson â'n Hegwyddorion: mae'n sicrhau bod y ddarpariaeth ddeddfwriaethol angenrheidiol yn cael ei gwneud i gychwyn darpariaethau perthnasol Deddf Caffael 2023 ac yn cefnogi gwaith cyflawni ein hamcanion polisi.

Yn gywir



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language